❖ Emyn ar gyfer y Nadolig

Ti Grist, Gwaredwr euog blant y llawr,
Rho ras yn ein calonnau ni yn awr
I blygu ger dy grud ac ufuddhau
Rhag i ti eto ddod a'r drws ynghau.
Nid oedd ond beudy yr anifail tlawd
Yn gartref ar dy gyfer Di, ein brawd.

Bu Moses gynt a'r holl broffwydi cu
Yn sôn amdanat cyn it ddod i'r bri;
Trwy ffydd, bu iddynt arddu cwysau lu –
Eu cenadwri fu'n braenaru'r tir.
Roedd arfaeth fawr y Nef yn ras i gyd
Yn trefnu dy fod Di yn geidwad byd.

Boed i mi yma ger dy fron yn awr
Wrth gofio'r wyrth am rodd y Cariad Mawr
Ymgrymu'n isel wrth dy breseb gwael
Ac addunedu roi i Ti yn hael
Yr aur, y thus a'r myrr a feddwn ni
Yn fechan rodd am dy haelioni di.

W. J. Lewis

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com